



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Strategaeth Gyfathrebu **Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2023-2026**

CEFNDIR A PHWRPAS

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn gorff cenedlaethol arbenigol sy'n rhan o GIG Cymru, ac sy'n darparu gwasanaethau digidol a data ar gyfer ein partneriaid.

Mae'r sefydliad yn rhedeg neu'n cyfuno â mwy na 100 o wasanaethau ac yn darparu rhaglenni trawsnewid digidol cenedlaethol mawr. Mae'n sefydliad ifanc ac uchelgeisiol a'i gweledigaeth i ddarparu gwasanaethau digidol ymysg y goreuon yn y byd, fydd yn grymuso pobl i fyw bywydau iachach. Gellir diffinio cyfathrebu fel y weithred o roi, derbyn neu gyfnewid gwybodaeth ac mae gan bawb rôl i'w chwarae wrth gefnogi'r ffordd y mae sefydliad yn cyfathrebu.

Fel sefydliad cenedlaethol sy'n rhan o'r GIG, mae'n hanfodol bwysig bod DHCW yn darparu cyfathrebiadau cryf a rhagweithiol i godi proffil ei waith ac adeiladu ei rôl fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo sydd ag enw da fel arweinydd system ar gyfer gwasanaethau iechyd digidol.

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i rannu cynnydd, sicrhau mecanwaith ar gyfer adborth dwy ffordd a hysbysu cynulleidfaoedd o rôl allweddol gwasanaethau digidol a data ym maes iechyd a gofal. Gall hefyd gefnogi creu diwylliant agored a thryloyw o fewn ein sefydliad, helpu gyda recriwtio a morâl staff ac ymgysylltu a chynnwys partneriaid yng ngwaith DHCW.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

CRYFDERAU, GWENDIDAU A CHYFLEOEDD

Yn hanesyddol mae gwasanaethau cyfathrebu yn DHCW, a'r sefydliadau a'i rhagflaenodd, wedi canolbwyntio ar sawl maes, gan gynnwys meithrin cyfathrebu mewnol cryf, digwyddiadau, ceisiadau am grantiau, datblygu gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Ymysg ei gryfderau y mae ansawdd a lefel ymgysylltu ei gyfathrebu mewnol, llwyddiant wrth ymgeisio am grantiau, a lefel ymwneud â digwyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. Fodd bynnag, mae ei wendidau cyfredol yn ymwneud â mabwysiadu dull adweithiol o gyfathrebu, yr angen i ddatblygu dull cryfach o gyfathrebu'n allanol a deall ein rhanddeiliaid a'u hanghenion cyfathrebu yn well.

Yn ddiweddar, bu symudiad tuag at fabwysiadu dull mwy rhagweithiol a ffocws cynyddol ar gyfathrebu allanol, gan gynnwys cyfathrebu digidol, cyfathrebu â rhanddeiliaid, y cyfryngau, gweithio mewn partneriaeth a ffyrdd o gyfathrebu mewn argyfwng.

Hefyd mae gwaith wedi'i wneud i feithrin ein cyfathrebu mewnol; gan alluogi staff i gymryd mwy o ran, a sicrhau bod cymorth ac arbenigedd cyfathrebu yn cael ei gynnig ar draws y sefydliad. Mae llawer o gyfleoedd cadarnhaol i barhau i ddatblygu ac ehangu yn y meysydd hyn.

Bydd datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n cefnogi cyfathrebu'n agored ac yn rhagweithiol ac sy'n amlinellu blaenoriaethau a chyfeiriad y sefydliad yn helpu i greu cysondeb yn ein dull a chanolbwyntio adnoddau; gan sicrhau ein bod yn cytuno ar set o nodau cyfathrebu.

Cynlluniwyd y strategaeth tair blynedd hon adeiladu ar ein gwaith hyd yma, canfod y meysydd ffocws ar gyfer cyfathrebu DHCW yn y blynyddoedd i ddod a darparu llwybr clir tuag at gyflawni ein hamcanion cyfathrebu strategol. Yr uchelgais ar gyfer y strategaeth gyfathrebu hon yw sicrhau bod DHCW yn cyfathrebu'n effeithiol â staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynghylch pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a'r effaith a gawn, yn ogystal â hwyluso adborth, mewnbwn a chydweithio gan y grwpiau allweddol hyn.

GWELEDIGAETH

Mae gweledigaeth yn allweddol i ddeall y cyfeiriad i'r dyfodol a'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni.

Ein gweledigaeth gyfathrebu yw darparu cyfathrebiadau aml-sianel, tryloyw a rhagweithiol sy'n rhoi pobl yn y canol ac yn cefnogi DHCW i fod yn bartner strategol y gellir ymddiried ynddo.



DULL

Nod y strategaeth hon yw sefydlu dull cyfathrebu ar gyfer DHCW a fydd yn golygu ein bod yn cyfathrebu'n fwy rhagweithiol ac yn canolbwyntio mwy ar bobl.

Bydd ein cyfathrebiadau yn agored am y rôl y mae DHCW yn ei chwarae a'r cyfleoedd sy'n codi o ganlyniad, ar yr un pryd byddwn yn gweithredu'n gytbwys yng nghyd-destun yr heriau a wynebwr gan DHCW a'r system iechyd a gofal ehangach yng Nghymru.

Yn ein cyfathrebiadau â staff a rhanddeiliaid, byddwn yn siarad yn rhagweithiol ac yn dryloyw am heriau i'n sefydliad ac ar yr un pryd yn rhoi pwyslais ar gyfathrebu'r ffyrdd rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain.

Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i ddeall yr heriau y maent yn eu hwynebu ac yn cyfathrebu'n onest â nhw am y rôl y gallai DHCW ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r rhain.

Byddwn yn gweithio tuag at nifer o egwyddorion cyfathrebu allweddol sy'n diffinio ein dull:

- Bod yn rhagweithiol ac yn flaengar
- Bod yn agored, yn onest ac yn dryloyw
- Bod yn amserol ac yn gyson
- Teilwra ein dull gweithredu er mwyn diwallu anghenion pobl
- Bod yn gynhwysol ac yn hygyrch
- Hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg a chefnogi DHCW i ddod yn sefydliad dwyieithog
- Sefydlu llais a brand DHCW
- Rhoi pobl yn y canol

Â PHWY RYDYM AM GYFATHREBU

Mae DHCW yn chwarae rhan unigryw yn nheulu GIG Cymru. Ni yw'r sefydliad o fewn y GIG sy'n darparu gwasanaethau digidol a data cenedlaethol i'n partneriaid.

Mae ein cynulleidfaoedd yn cynnwys:

Gwasanaethau cymunedol a gofal cymdeithasol	Y sector gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gwasanaethau cymunedol
Gwasanaethau digidol a data	Arweinwyr digidol a data yn GIG Cymru (Cyfarwyddwyr ar lefel Bwrdd sy'n gyfrifol am wasanaethau digidol, Prif Swyddogion Digidol, Prif Swyddogion Gwybodeg Glinigol, perfformiad a gwybodaeth), uwch staff, staff digidol a data
Cyfryngau	Darlledu, print, ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata
GIG Cymru – Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Byrddau Awdurdodau Iechyd arbennig a sefydliadau eraill GIG Cymru	Byrddau (Cadeiryddion, Aelodau Annibynnol, Gweithredwyr), clinigwyr, arweinwyr digidol, uwch staff, defnyddwyr rheng flaen systemau (anghlinigol), arweinwyr cyfathrebu
Y GIG yn Ehangach	GIG Lloegr, GIG Gogledd Iwerddon, GIG yr Alban
Cleifion a'r cyhoedd	Cleifion a'r cyhoedd yn ehangach
Llywodraeth wleidyddol/llywodraeth leol	Llywodraeth wleidyddol (cynrychiolwyr etholedig) a llywodraeth leol (aelodau a swyddogion)
Gofal Sylfaenol	Meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optometryddion, staff gofal iechyd carchardai

Â PHWY RYDYM AM GYFATHREBU

Mae ein cynulleidfaoedd yn cynnwys:

Cyrff cynrychioliadol	Sefydliadau proffesiynol, statudol a rheoleiddiol gan gynnwys undebau llafur (Cymru a'r DU) gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Conffederasiwn GIG Cymru a Chanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru
Ymchwil, Addysg ac Arloesedd	Ymchwil, arloesedd ac addysg (gan gynnwys diwydiant, technolegau digidol a gwybodaeth)
Cyflenwyr a chontractwyr	Caffael gwasanaethau masnachol a chontractau i gefnogi'r sefydliad – systemau, meddalwedd gwasanaethau, ymgynghoriaeth, asiantaethau, contractwyr
Y trydydd sector	Trydydd sector/sector gwirfoddol, sefydliadau sy'n cynrychioli Cleifion/y Cyhoedd/cyflyrau penodol
Llywodraeth Cymru	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr GIG Cymru, Prif Swyddogion, Cyfarwyddwyr Digidol a Data, arweinwyr clinigol a pholisi cenedlaethol
Gweithlu'r dyfodol	Gweithwyr proffesiynol digidol, gweithwyr iechyd proffesiynol, myfyrwyr, hyfforddeion, prentisiaid, ysgolion a phrifysgolion

NODAU STRATEGOL

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, byddwn yn canolbwyntio ar bum nod strategol allweddol. Sef:

UN Sefydlu enw da DHCW fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo

DAU Meithrin ein cyfathrebu mewnol - cefnogi staff i deimlo eu bod yn wybodus ac wedi'u grymuso, a gwneud DHCW yn lle gwyb i weithio ac yn sefydliad uchelgeisiol o ansawdd uchel

TRI Datblygu ein cyfathrebu â rhanddeiliaid – meithrin perthnasoedd i weithio mewn partneriaeth

PEDWAR Tyfu ein cyfathrebu cyhoeddus – meithrin dealltwriaeth o rôl DHCW a sut bydd gwasanaethau digidol a data yn helpu'r GIG yng Nghymru i weithio'n well, beth mae DHCW yn ei wneud i fynd i'r afael â chynhwysiant digidol ac annog pobl i weithio i ni

PUMP Gwella ein cyfathrebu digidol – darparu cyfathrebiadau digidol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu ein pwrpas a'n huchelgais fel sefydliad digidol

SEFYDLU

MEITHRIN

DATBLYGU

TYFU

GWELLA

NOD STRATEGOL UN:

**SEFYDLU ENW
DHCW FEL PARTNER
STRATEGOL Y GELLIR
YMDDIRIED YNDDO**

SEFYDLU

BLE RYDYM NI AM FOD?

- Meddu ar weledigaeth a phwrrpas wedi'u cyfleu'n glir fel bod pobl yn deall pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a pham
- Bod yn llais a brand cydnabyddedig yn y sectorau iechyd a digidol
- Cael ein gweld fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo a'n cydnabod fel sefydliad agored, gonest sy'n dysgu
- Meddu ar enw da am ddarparu cynnyrch a gwasanaethau o ansawdd uchel
- Sicrhau bod mwy o ddiddordeb mewn gweithio i ni, a gyda ni, drwy ddangos gwell ymwybyddiaeth o'n rôl a'n henw da

NOD STRATEGOL UN:

**SEFYDLU ENW
DHCW FEL PARTNER
STRATEGOL Y GELLIR
YMDDIRIED YNDDO**

SEFYDLU

SUT BYDDWN YN GWNEUD HYN?

- Datblygu llais ar gyfer DHCW a ddefnyddir yn gyson
- Datblygu set gyson o negeseuon allweddol sy'n amlinellu pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a'r effaith a gawn
- Sicrhau bod y neges gywir yn cael ei rhoi i'r cynulleidfaoedd cywir ar yr amser iawn
- Bod yn onest am yr heriau sy'n ein hwynebu a chyfathrebu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio i fynd i'r afael â hwy
- Adeiladu hunaniaeth brand DHCW ac alinio rhaglenni â hyn
- Codi ein proffil fel arweinwyr systemau trwy ddull penodol, pwrpasol a rhagweithiol o ymdrin â chyfathrebu allanol ac arwain meddyliau
- Cyfranogi mwy at GIG Cymru a rhwydweithiau cenedlaethol
- Cyfathrebu'n rhagweithiol ac yn onest am ein dysgu pan nad yw pethau wedi mynd yn dda
- Cyfathrebu'n barhaus yr effaith y mae ein gwaith wedi'i chael hyd yma ac unrhyw ddilysiad allanol i helpu i ennyn ymddiriedaeth yn yr hyn a ddywedwn a'r hyn a wnawn

NOD STRATEGOL DAU:

ADEILADU AR EIN
CYFATHREBU MEWNOL
- CEFNOGI STAFF I
DEIMLO EU BOD YN
WYBODUS AC WEDI
EU GRYMUSO YN
EU GWAITH, GAN
WNEUD DHCW YN LLE
GWYCH I WEITHIO
AC YN SEFYDLIAD
UCHELGEISOL AC O
ANSAWDD UCHEL

MEITHRIN

BLE RYDYM NI AM FOD?

- Rydym yn gweithio ar y cyd â staff i sicrhau bod eu hanghenion cyfathrebu yn cael eu diwallu a'u bod yn teimlo eu bod yn wybodus am y sefydliad, gydag amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer deialog dwy ffordd ac adborth
- Mae staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyfathrebu'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud, ein gweledigaeth a'n pwrpas a gallant gefnogi'r broses o gyflwyno negeseuon sefydliadol
- Rydym yn cael ein cydnabod fel sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel, sy'n cadw ac yn denu'r bobl orau i weithio i ni
- Mae gan staff amrywiaeth o fecanweithiau a chyfleoedd i gydweithio yn ein gwaith cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, adborth a syniadau gyda'i gilydd ac uwch arweinwyr
- Gosodir staff wrth galon ein cyfathrebu mewnol wrth i ni fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar bobl
- Mae'r defnydd o'r Gymraeg ar draws DHCW yn cael ei gefnogi, ei annog a'i gyflwyno trwy ein cyfathrebiadau, a hynny'n helpu'r sefydliad i ddod yn sefydliad dwyieithog
- Mae staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu eu hunain i'w cefnogi i gyfathrebu'n effeithiol yn eu gwaith o ddydd i ddydd

NOD STRATEGOL DAU:

ADEILADU AR EIN
CYFATHREBU MEWNOL
- CEFNOGI STAFF I
DEIMLO EU BOD YN
WYBODUS AC WEDI
EU GRYMUSO YN
EU GWAITH, GAN
WNEUD DHCW YN LLE
GWYCH I WEITHIO
AC YN SEFYDLIAD
UCHELGEISOL AC O
ANSAWDD UCHEL

MEITHRIN

SUT BYDDWN YN GWNEUD HYN?

- Defnyddio amrywiaeth o sianeli i roi gwybodaeth amserol a pherthnasol i staff
- Datblygu rhaglen ragweithiol o ddigwyddiadau mewnol sy'n galluogi staff i gydweithio a chael sgysiau dwy ffordd, gan gynnwys gydag uwch arweinwyr
- Gosod staff wrth galon ein cyfathrebu, gan ddathlu eu gwaith a'u cyflawniadau a'r effaith a gânt i helpu i ysbrydoli eraill
- Gweithio'n agos gyda'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol i gydweithio â staff i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth a chyfle i ymgysylltu ac yn rhan o sefydliad cynhwysol a chefnogol
- Cynnal gwerthusiad rheolaidd o ymgysylltu a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill sydd â system cyfathrebu mewnol lwyddiannus a sicrhau ein bod yn bodloni anghenion y sefydliad
- Cydweithio â staff i'w cefnogi i fod yn llysgenhadon i'r sefydliad ac adlewyrchu gwerthoedd ac ymddygiadau DHCW
- Gweithio gydag arweinwyr y Gymraeg i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol ar draws y sefydliad a sicrhau bod ein cyfathrebiadau ar gael yn ddwyieithog
- Datblygu pecynnau cymorth a chanllawiau i staff wella eu sgiliau cyfathrebu fel eu bod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso yn y maes hwn

NOD STRATEGOL TRI:

**DATBLYGU EIN
CYFATHREBU Â'N
RHANDDEILIAID
- ADEILADU
PERTHNASOEDD ER
MWYN GWEITHIO MEWN
PARTNERIAETH**

DATBLYGU

BLE RYDYM NI AM FOD?

- Cael ein gweld fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal digidol
- Meddu ar berthnasoedd cadarnhaol a chydweithredol gyda rhanddeiliaid sy'n deall y rôl rydym yn ei chwarae ac yn gwerthfawrogi'r hyn a wnawn
- Meddu ar ddull cydlynol a diffiniedig o gyfathrebu ac ymgysylltu sy'n seiliedig ar ddeall anghenion rhanddeiliaid
- Bod yn gyson yn ein cyfathrebiadau â rhanddeiliaid; rhoi gwybodaeth amserol a pherthnasol iddynt a chaniatáu cyfleoedd iddynt gyfathrebu â ni
- Cael ein gweld fel yr arbenigwyr ym maes gwasanaethau iechyd digidol
- Creu cyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn ein cyfathrebu
- Mynd ati i gefnogi, annog a chyflwyno'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid

NOD STRATEGOL TRI:

**DATBLYGU EIN
CYFATHREBU Â'N
RHANDDEILIAID
- ADEILADU
PERTNASOEDD ER
MWYN GWEITHIO MEWN
PARTNERIAETH**

DATBLYGU

SUT BYDDWN NI'N GWNEUD HYN?

- Cyfathrebu â'n rhanddeiliaid mewn modd rhagweithiol, perthnasol a phenodol, gan ddarparu gwybodaeth mewn modd amserol, cyson a phriodol, gan gynnwys, lle bo angen, cyfathrebiadau amserol mewn argyfwng
- Cyfathrebu'n onest yr heriau y mae DHCW yn eu hwynebu a sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â nhw
- Gweithio ar y cyd rhwng Cyfathrebu ac Ymgysylltu i wneud gwaith mapio rhanddeiliaid er mwyn deall ein rhanddeiliaid a'u hanghenion a rhoi sianeli cyfathrebu ar waith sy'n bodloni'r rhain
- Datblygu rhwydwaith proffesiynol Cyfathrebu ac Ymgysylltu DHCW er mwyn sefydlu dull diffiniedig o ymdrin â rhanddeiliaid ar draws DHCW a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am rhanddeiliaid allweddol
- Datblygu strategaeth digwyddiadau sy'n cefnogi gweithio ar y cyd ac yn codi ymwybyddiaeth o DHCW ymhlith rhanddeiliaid
- Defnyddio ein harbenigedd mewn gwasanaethau digidol a data i gyflwyno gwybodaeth, sesiynau briffio a digwyddiadau i bartneriaid i'w cefnogi yn eu gwaith
- Datblygu offer i staff DHCW feithrin eu sgiliau yn y maes hwn a'u cefnogi gyda'u gwaith ymgysylltu er mwyn sicrhau cysondeb yn eu negeseuon a'u dulliau
- Meithrin perthnasoedd a chydweithio â'n cydweithwyr cyfathrebu yn GIG Cymru a phartneriaid ehangach i fynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i gydweithio
- Mynd ati'n rhagweithiol i ganfod cyfleoedd gyda chyfryngau masnach i gyrraedd cynulleidfaoedd rhanddeiliaid yn well
- Gweithio gydag arweinwyr y Gymraeg i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol gyda'n rhanddeiliaid a sicrhau bod ein cyfathrebiadau ar gael yn ddwyieithog

**NOD STRATEGOL
PEDWAR: TYFU
EIN CYFATHREBU
CYHOEDDUS – MEITHRIN
DEALLTWRIAETH O
RÔL DHCW A SUT BYDD
GWASANAETHAU
DIGIDOL A DATA YN
HELPU'R GIG YNG
NGHYMRU I WEITHIO'N
WELL, BETH MAE
DHCW YN EI WNEUD
I FYND I'R AFAEL
Â CHYNHWYSIANT
DIGIDOL AC ANNOG
POBL I WEITHIO I NI**

TYFU

BLE RYDYM NI AM FOD?

- Mae ymwybyddiaeth o'r rôl y mae DHCW yn ei chwarae a sut mae ein gwasanaethau a'n cynhyrchion yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal ynghyd ag ansawdd y gofal a dderbynnir neu'n cefnogi'r cyhoedd i aros yn iach.
- Cael ein gweld fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo ac yn rhan o'r teulu iechyd a gofal
- Mae'r cyhoedd yn ymwybodol ac yn ymgysylltu â gwasanaethau digidol a chynhyrchion y gallant eu defnyddio i wella eu hiechyd a'u lles
- Cael ein gweld fel yr arbenigwyr ym maes gwasanaethau iechyd digidol
- Sicrhau bod mwy o ddiddordeb mewn gweithio i ni, a gyda ni, trwy well ymwybyddiaeth o'n rôl a'n henw da

**NOD STRATEGOL
PEDWAR: TYFU
EIN CYFATHREBU
CYHOEDDUS – MEITHRIN
DEALLTWRIAETH O
RÔL DHCW A SUT BYDD
GWASANAETHAU
DIGIDOL A DATA YN
HELPU'R GIG YNG
NGHYMRU I WEITHIO'N
WELL, BETH MAE
DHCW YN EI WNEUD
I FYND I'R AFAEL
Â CHYNHWYSIANT
DIGIDOL AC ANNOG
POBL I WEITHIO I NI**

TYFU

SUT BYDDWN YN GWNEUD HYN?

- Sicrhau bod ein sianeli cyfathrebu cyhoeddus yn dilyn arfer gorau a'u bod yn ddeniadol ac yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd
- Teilwra ein cyfathrebiadau a nodi cyfleoedd i gyflwyno cyfathrebiadau rhagweithiol sy'n amlygu'r hyn y mae DHCW yn ei wneud ac yn dangos sut mae ein gwasanaethau yn helpu i wella gofal am y cyhoedd
- Hyrwyddo ein gwasanaethau a'n cynhyrchion allweddol y gall y cyhoedd eu defnyddio i wella eu gofal
- Datblygu strategaeth digwyddiadau i sicrhau bod gennym bresenoldeb mewn digwyddiadau cyhoeddus perthnasol i godi ymwybyddiaeth o DHCW
- Ymgysylltu â'r wasg brif ffrwd a'r cyfryngau Cymraeg a chanfod cyfleoedd i hyrwyddo ein gwaith i gynulleidfa gyhoeddus eang
- Gweithio gyda'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol i ddatblygu cyfathrebu a mynychu digwyddiadau perthnasol sy'n targedu gweithlu'r dyfodol ac yn annog siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd i weithio i DHCW
- Gweithio ar y cyd â thimau cyfathrebu GIG Cymru a phartneriaid allweddol i gyflwyno cyfathrebiadau ar y cyd sy'n hyrwyddo ein gwaith a'r effaith y mae'n ei chael ar eu cynulleidfaoedd

**NOD STRATEGOL
PUMP: GWELLA
EIN CYFATHREBU
DIGIDOL - DARPARU
CYFATHREBIADAU
DIGIDOL O ANSAWDD
UCHEL SY’N
ADLEWYRCHU EIN
HUCHELGAIS FEL
SEFYDLIAD DIGIDOL**

GWELLA

BLE RYDYM NI AM FOD?

- Yn arwain y ffordd ym maes cyfathrebu digidol; yn cynrychioli’r gwasanaethau digidol o ansawdd uchel a ddarparwn
- Yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd
- Yn broffesiynol, yn rhagweithiol ac yn ymgysylltu â’r cynnwys a grëir gennym
- Yn diwallu anghenion ein staff, ein rhanddeiliaid a’r cyhoedd
- Yn arwain y ffordd o ran darparu cyfathrebiadau digidol sy’n gynhwysol ac yn cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg
- Yn ymateb i dueddiadau newydd er mwyn cadw i fyny ag amgylchedd sy’n symud yn gyflym

**NOD STRATEGOL
PUMP: GWELLA
EIN CYFATHREBU
DIGIDOL - DARPARU
CYFATHREBIADAU
DIGIDOL O ANSAWDD
UCHEL SY’N
ADLEWYRCHU EIN
HUCHELGAIS FEL
SEFYDLIAD DIGIDOL**

GWELLA

SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN?

- Gwellu sgiliau tîm mewn cyfathrebu digidol
- Sganio’r gorwel i ganfod tueddiadau newydd a sicrhau ein bod yn darparu arfer gorau
- Sicrhau bod mwy o gynnwys digidol yn cael ei greu’n fewnol
- Nodi lle gallwn ddefnyddio cyfathrebu digidol i sicrhau’r canlyniadau gorau a bod mor gynhwysol â phosibl
- Sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull dwyieithog o gyfathrebu’n ddigidol, gan gynnig cynnwys yn y ddwy iaith a hyrwyddo DHCW fel sefydliad dwyieithog
- Mabwysiadu dull gweithredu sy’n canolbwyntio mwy ar bobl
- Gwerthuso ein hoffer cyfathrebu digidol yn rheolaidd gan ddefnyddio metreg perfformiad allweddol

CANLYNIADAU

Nod y strategaeth hon yw creu ffocws newydd, agored a rhagweithiol i waith cyfathrebu DHCW.

Canlyniadau'r gwaith hwn yw:

- Mae staff a rhanddeiliaid yn teimlo ein bod yn cydweithio â nhw, eu bod yn gwybod llawer am ein gwaith ac yn ymgysylltu'n agos ag ef a'u bod yn cael cyfleoedd i gyfrannu drwy amrywiaeth o fecanweithiau.
- Mae llais a brand DHCW yn cael eu sefydlu a'u cydnabod gan bobl yn y sectorau iechyd a digidol
- Rydym yn cael ein hystyried gan ein partneriaid allweddol yn bartner strategol y gellir ymddiried ynddo ac mae ganddynt hyder mawr yn yr hyn a wnawn a'r hyn a ddywedwn
- Mae gennym ddiwylliant sy'n cefnogi sgysiau agored a gonest gyda staff a rhanddeiliaid gyda dulliau effeithiol o gyfathrebu fel bod safbwyntiau, syniadau ac adborth yn cael eu clywed ac yn cael ymateb mewn ffyrdd priodol.
- Rydym yn dysgu o arfer gorau i ddod yn esiampl ar gyfer cyfathrebu • Mae staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu fel eu bod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u cefnogi i ddarparu cyfathrebiadau cryf ar ran DHCW yn eu gwaith o ddydd i ddydd




GWERTHUSO A MESUR

Byddwn yn gwerthuso ac yn mesur y gwaith hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Ymgysylltiad ac adborth rhanddeiliaid a chael ein cymeradwyo ganddynt
- Adborth gan ein staff am ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu
- Sylw yn y cyfryngau a straeon newyddion rhagweithiol
- Staff yn cymryd rhan mewn arolygon barn a'r canlyniadau
- Darllen deunyddiau cyfathrebu allweddol
- Ymgysylltu â'n cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan
- Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd, presenoldeb ac adborth o'r digwyddiadau hyn
- Presenoldeb DHCW mewn digwyddiadau partneriaid allweddol ac adborth cysylltiedig

Gan fod y strategaeth hon yn cynnwys dull newydd o weithredu gan y sefydliad, byddwn yn adolygu ac yn monitro'r cynllun cyflawni a'r mesurau uchod yn ofalus i sicrhau eu bod yn effeithiol, yn briodol ac yn cyflawni ein nodau strategol.

Bydd ein dull gweithredu hefyd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i addasu i ymateb i unrhyw anghenion sy'n newid a sicrhau bod dysgu a gwella parhaus yn digwydd i gyflawni arfer gorau.



ATODIAD 1

Roedd ymgysylltu ar gyfer y strategaeth hon yn cynnwys:

- Arolwg cyfathrebu mewnol
- Strategaeth ymgysylltu, cynllun gweithredu a gwaith gan y Sefydliad Ymgynghori
- Arolwg Bwrdd DHCW
- Cyfarfodydd cynefino gydag ADOC (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu) - gyda staff a rhanddeiliaid
- Diwrnod cwrdd i ffwrdd i'r tîm cyfathrebu i gynnal sesiwn cynllunio strategaeth
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Pennaeth Ymgysylltu
- Ymgysylltu â'r Pennaeth Strategaeth
- Sesiwn Tîm Gweithredol DHCW
- Sesiwn datblygu'r Bwrdd
- Y Bwrdd Rheoli
- Gweithdy cyflwyno strategaeth y tîm cyfathrebu
- Rhwydwaith proffesiynol Cyfathrebu ac Ymgysylltu DHCW
- Uwch Dîm Arwain Cyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

ATODIAD 2

Cynllun cyflawni cyfathrebu 2023-2024

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
Sefydlu enw da DHCW fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo	Byddwn yn datblygu llais i DHCW a ddefnyddir yn gyson yn ein holl gyfathrebu	Datblygu tôn ac arddull ysgrifennu ar gyfer holl gyfathrebiadau DHCW Rhoi prosesau ar waith o fewn y tîm cyfathrebu i sicrhau bod hyn yn cael ei ddefnyddio yn ein gwaith cyfathrebu Datblygu arddulliadur ar gyfer ysgrifennu gyda'r tôn llais hwn i roi arweiniad i holl staff DHCW	Tachwedd Rhagfyr Ionawr
	Datblygu set gyson o negeseuon allweddol sy'n amlinellu pwy ydym ni, beth rydym ni'n ei wneud a'r effaith a gawn	Datblygu a chytuno ar negeseuon allweddol sy'n cwmpasu beth yw DHCW, beth rydym yn ei wneud a'r effaith a gawn Datblygu arweiniad i staff i sicrhau cysondeb mewn negeseuon Diweddarau ein deunyddiau a'n sianeli cyfathrebu corfforaethol allweddol i sicrhau bod y negeseuon hyn yn cael eu defnyddio	Hydref Hydref Medi
	Sicrhau bod y neges gywir yn cael ei rhoi i'r cynulleidfaoedd cywir ar yr adeg gywir	Ymgymryd â gwaith mapio rhanddeiliaid i ddeall anghenion rhanddeiliaid Cynnal gweithdy negeseuon i sefydlu negeseuon i randdeiliaid Rhoi mecanweithiau ar waith i gyfathrebu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau cyfathrebu rheolaidd ar faterion allweddol	Hydref Medi Ionawr
	Bod yn onest am yr heriau sy'n ein hwynebu a chyfathrebu sut rydym yn gweithio i fynd i'r afael â hwy	Sicrhau ein bod yn cydnabod heriau yn ein gwaith cyfathrebu a darparu cyd-destun Datblygu astudiaethau achos o sut rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn Cynnal digwyddiadau staff a rhanddeiliaid sy'n ymdrin â'r heriau sy'n ein hwynebu a sut rydym yn gweithio i fynd i'r afael â nhw	Awst ymlaen Medi ymlaen Hydref ymlaen

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Adeiladu hunaniaeth brand DHCW ac alinio rhaglenni â hon	Cyfathrebu â staff am y brandio newydd ar gyfer rhaglenni a chynhyrchion er mwyn sicrhau un brand corfforaethol cyson i DHCW Gweithio gyda'r tîm graffeg i ddatblygu canllawiau brandio a phecynnau cymorth Diweddarau deunyddiau cyfathrebu presennol lle defnyddir hen frandio Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ar gyfer rhaglenni a chynhyrchion yn defnyddio'r brandio newydd	Medi Gorffennaf Fe'i cyflwynir yn raddol o fis Medi ymlaen
	Codi ein proffil fel arweinwyr system drwy ddull penodol, rhagweithiol a thryloyw o gyfathrebu'n allanol	Mynd ati i ganfod cyfleoedd i gyflwyno darnau perthnasol fydd yn ysgogi'r meddwl i'r cyfryngau a chyhoeddiadau Adeiladu cynllunydd digwyddiadau i ganiatáu gwell cynllunio strategol ar gyfer digwyddiadau a sicrwydd bod y bobl gywir yn siarad am y pethau cywir i'r cynulleidfaoedd cywir Cynnal adolygiad o'n gwefan a rhoi unrhyw argymhellion ar waith i sicrhau ei bod yn cyflawni arfer gorau ac yn addas i'r diben Canolbwyntio ymdrechion ar dyfu ein cyfathrebu yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo ein gwaith a phroffilio ein harweinwyr ac effaith gwasanaethau digidol ym maes iechyd a gofal Defnyddio offer sganio cyfryngau cymdeithasol i ganfod tueddiadau a phwyntiau trafod allweddol ym maes gwasanaethau iechyd digidol a sicrhau, lle bo'n briodol, ein bod yn rhan o'r sgwrs	Hydref Mehefin Parhaus Parhaus Hydref

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Cyfathrebu'n rhagweithiol ac yn onest am yr hyn rydym wedi'i ddysgu pan nad yw pethau wedi mynd yn dda	Bod â phresenoldeb cyfathrebu yn y grŵp dysgu a rheoli digwyddiadau Datblygu cyfathrebiadau am waith y grŵp Datblygu cyfathrebiadau am yr hyn rydym wedi'i ddysgu o ddigwyddiadau a'r hyn sydd wedi newid o ganlyniad a rhannu'r wybodaeth hon gyda staff a rhanddeiliaid Datblygu digwyddiadau sy'n sôn am y dysgu hwn i staff a rhanddeiliaid	Parhaus Awst Hydref Tachwedd
	Cyfathrebu'n barhaus yr effaith y mae ein gwaith wedi'i chael hyd yma ac unrhyw ddilysiad allanol i helpu i sefydlu ymddiriedaeth yn yr hyn a ddywedwn a'r hyn a wnawn	Datblygu astudiaethau achos sy'n dangos yr effaith y mae ein gwaith yn ei chael Cynnal a mynychu digwyddiadau lle rydym yn arddangos ein gwaith a'r effaith y mae'n ei chael Datblygu darnau arweinyddiaeth sy'n ysgogi'r meddwl er mwyn sefydlu ein hunain fel arweinydd system a chodi ein proffil Defnyddio dilysiad allanol a mabwysiadu dull partneriaeth o gyfathrebu	Parhaus Parhaus Tachwedd ymlaen Parhaus
	Cyfrannu mwy at GIG Cymru a rhwydweithiau digidol cenedlaethol	Ymuno â grŵp wythnosol Penaethiaid Cyfathrebu Llywodraeth Cymru Ymuno â grŵp cymheiriaid Penaethiaid Cyfathrebu Conffederasiwn GIG Cymru Ymuno â grŵp cyfathrebu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a grwpiau cymheiriaid perthnasol	Parhaus Parhaus Parhaus

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
Adeiladu ar ein cyfathrebu mewnol - cefnogi staff i deimlo eu bod wedi'u grymuso yn eu gwaith, gan wneud DHCW yn lle gwyb i weithio ac yn sefydliad uchelgeisiol o ansawdd uchel.	Defnyddio amrywiaeth o sianeli i roi gwybodaeth amserol a pherthnasol i staff	Gwerthuso'r sianeli mewnol presennol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol Rhoi offer cyfathrebu mewnol ar waith yn seiliedig ar arolwg cyfathrebu mewnol Parhau i ddatblygu SharePoint fel 'siop un stop' i roi gwybodaeth i staff Parhau i ddefnyddio sianeli cyfathrebu mewnol llwyddiannus, gan gynnwys briffio staff a negeseuon i staff	Ionawr Medi Parhaus Parhaus
	Datblygu rhaglen ragweithiol o ddigwyddiadau mewnol sy'n galluogi staff i gydweithio a chael sgysiau dwy ffordd, gan gynnwys gydag uwch arweinwyr	Datblygu rhaglen i'r Tîm Gweithredol ymgysylltu â staff Newid y sesiynau briffio staff i weminarau i sicrhau sgysiau dwy ffordd Cynorthwyo Timau Gweithredol i ddatblygu eu mecanweithiau cyfathrebu eu hunain ar gyfer eu cyfarwyddiaethau Datblygu cynllunydd digwyddiadau sy'n sicrhau bod ystod o ddigwyddiadau mewnol i ymgysylltu â staff yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn	Medi Parhaus Parhaus Mehefin

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Gosod staff wrth galon ein cyfathrebu, gan ddathlu eu gwaith a'u cyflawniadau a'r effaith a gânt i helpu i ysbrydoli eraill	Sicrhau bod ein holl gyfathrebiadau yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar bobl	Parhaus
		Parhau i roi cymorth cyfathrebu i'r cyfarwyddiaethau er mwyn deall eu gwaith yn well a datblygu hanesion am gyflawniadau tîm a'u cynnwys yn ein gwaith cyfathrebu	Parhaus
	Gweithio'n agos gyda'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol i gydweithio â staff i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth a chyfle i ymgysylltu ac yn rhan o sefydliad cynhwysol a chefnogol	Parhau i roi cymorth cyfathrebu i'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol i gyfleu gwybodaeth allweddol i staff	Parhaus
		Cyfarfodydd rheolaidd yn eu lle rhwng y Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Tîm Cyfathrebu i sicrhau cydweithio ar gyfathrebu mewnol a chefnogaeth i staff	Medi
		Rhoi dulliau cadarn o werthuso ein cyfathrebu mewnol ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion staff	Hydref
		Rhoi dulliau cyfathrebu/dulliau dwy ffordd ar waith megis sesiynau briffio staff fel eu bod yn cael cyfle i roi adborth ar faterion allweddol	Parhaus
	Gwerthuso ac ymgysylltu'n rheolaidd a meincodi yn erbyn sefydliadau eraill a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y sefydliad	Cynnal archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o'n cyfathrebu mewnol a'u monitro yn erbyn sefydliadau eraill	Hydref
		Sganio'r gorwel i ganfod arfer gorau ac ystyried sut gallai DHCW fabwysiadu dulliau newydd	Ionawr
		Dod â syniadau newydd i sesiynau blaengynllunio a diwrnodau cwrdd i ffwrdd tîm	Ionawr

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Cydweithio â staff i'w cefnogi i fod yn llysgenhadon i'r sefydliad gan adlewyrchu gwerthoedd ac ymddygiadau DHCW	Galw ar staff i ddod yn llysgenhadon Datblygu astudiaethau achos staff i'w hyrwyddo ar ein sianeli a'n digwyddiadau recriwtio Datblygu negeseuon allweddol ynghylch gwaith recriwtio DHCW y gall staff eu defnyddio Datblygu pecyn cymorth staff i'w cefnogi i hyrwyddo'r sefydliad, fydd yn cynnwys negeseuon allweddol a gwybodaeth berthnasol	Tachwedd Ionawr Ionawr Chwefror
	Gweithio gydag arweinwyr y Gymraeg i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol ar draws y sefydliad a sicrhau bod ein cyfathrebiadau ar gael yn ddwyieithog	Ymgysylltu ag arweinwyr y Gymraeg a rhwydweithio ar draws DHCW Hyrwyddo adnoddau Cymraeg a chefnogaeth staff yn gryf Sicrhau bod cyfathrebiadau'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog Edrych ar greu cynnwys gyda siaradwyr Cymraeg o fewn y tîm cyfathrebu	Awst Awst Parhaus Medi
	Datblygu pecynnau cymorth a chanllawiau i staff wella eu sgiliau cyfathrebu fel eu bod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso yn y maes hwn	Datblygu pecyn cymorth sgiliau cyfathrebu staff Sefydlu sesiynau hyfforddi staff mewn cyfathrebu trwy ein dulliau cyfathrebu mewnol	Hydref O fis Rhagfyr ymlaen

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
Datblygu ein cyfathrebu â rhanddeiliaid - meithrin perthnasoedd i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid	Bod yn rhagweithiol a pherthnasol wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid, gan ddarparu gwybodaeth mewn modd amserol, cyson a phriodol	Trefnu cyfarfodydd rheolaidd i flaengynllunio cyfathrebu sy'n cynnwys arweinwyr cyfathrebu rhaglenni i rannu gwybodaeth a defnyddio dull cyffredin o gyfathrebu â rhanddeiliaid Diweddarau rhestr cysylltiadau rhanddeiliaid Gwneud defnydd o gronfa ddata rhanddeiliaid sy'n dangos pwy sy'n cyfathrebu â phwy a sut Gwerthuso ac adolygu'r dulliau cyfredol o gyfathrebu â rhanddeiliaid ar draws DHCW i ganfod pa sianeli sydd ar gael ar hyn o bryd a sut i gydlynu hyn yn well Rhoi mecanweithiau ar waith sy'n cefnogi cyfathrebu rhagweithiol gyda rhanddeiliaid, er enghraifft cylchlythyrau, sesiynau briffio	Parhaus Awst Ionawr Hydref Ionawr
	Cyfathrebu'n onest am yr heriau y mae DHCW yn eu hwynebu a sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â nhw	Sicrhau ein bod yn cydnabod heriau yn ein gwaith cyfathrebu a darparu cyd-destun Datblygu astudiaethau achos sy'n dangos sut rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn Datblygu cyfathrebiadau am yr hyn rydym wedi'i ddysgu o ddigwyddiadau a'r hyn sydd wedi newid o ganlyniad a rhannu'r wybodaeth hon gyda staff a rhanddeiliaid Datblygu digwyddiadau sy'n sôn am y dysgu hwn ar gyfer staff a rhanddeiliaid	Awst ymlaen Medi ymlaen Hydref Tachwedd

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Gweithio ar y cyd rhwng Cyfathrebu ac Ymgysylltu i wneud gwaith mapio rhanddeiliaid er mwyn deall ein rhanddeiliaid a'u hanghenion a rhoi sianeli cyfathrebu ar waith sy'n diwallu'r anghenion hyn	Gweithio gyda'r Pennaeth Ymgysylltu i wneud gwaith mapio rhanddeiliaid ar gyfer DHCW Gweithio gydag arweinwyr cyfathrebu ac ymgysylltu eraill ar draws DHCW i ddeall eu rhanddeiliaid a'u hanghenion Rhoi sianeli rhanddeiliaid ar waith a fydd yn diwallu'r anghenion hyn Sicrhau bod y sianeli hyn yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion yn parhau i gael eu diwallu	Hydref Hydref Ionawr Ionawr
	Datblygu rhwydwaith proffesiynol Cyfathrebu ac Ymgysylltu DHCW er mwyn sefydlu dull diffiniedig o ymdrin â rhanddeiliaid ar draws DHCW	Gweithio gyda'r Pennaeth Ymgysylltu i barhau i sefydlu a thyfu'r rhwydwaith cyfathrebu ac ymgysylltu Rhannu gwybodaeth a chytuno ar ddull strwythuredig a chydlynol o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid	Parhaus Parhaus
	Datblygu strategaeth digwyddiadau sy'n cefnogi gweithio ar y cyd ac yn codi ymwybyddiaeth o DHCW ymhlith rhanddeiliaid	Datblygu cynllunydd digwyddiadau Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tîm digwyddiadau i sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid cywir ac yn cyrraedd y gynulleidfa gywir gyda'n presenoldeb a'n hymwneud â digwyddiadau	Mehefin Parhaus
	Defnyddio ein harbenigedd mewn gwasanaethau digidol a data i gyflwyno gwybodaeth, sesiynau briffio a digwyddiadau i bartneriaid i'w cefnogi yn eu gwaith	Datblygu rhestr o lefarwyr ar gyfer meysydd arbenigedd allweddol Cynnal digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid ar feysydd arbenigedd a fydd yn eu cefnogi yn eu gwaith Sicrhau ein bod yn mynychu digwyddiadau perthnasol gan ddefnyddio'r llefarwyr cywir i hyrwyddo ein gwaith a'n harbenigedd i gynulleidfaoedd	Rhagfyr Ionawr ymlaen Parhaus

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Datblygu offer ar gyfer staff DHCW i'w cefnogi gyda'u gwaith ymgysylltu i sicrhau cysondeb o ran negeseuon a dulliau	Datblygu pecyn cymorth rhanddeiliaid sy'n cynnwys negeseuon a gwybodaeth allweddol i gefnogi staff wrth iddynt ymgysylltu â rhanddeiliaid	Hydref
	Meithrin perthnasoedd a chydweithio â'n cydweithwyr cyfathrebu yn GIG Cymru a phartneriaid ehangach i fynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i gydweithio	Ymuno â galwadau wythnosol Penaethiaid Cyfathrebu Llywodraeth Cymru Ymuno â grŵp cymheiriaid Penaethiaid Cyfathrebu Conffederasiwn GIG Cymru Ymuno â grwpiau cyfathrebu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a grwpiau cymheiriaid perthnasol	Parhaus Parhaus Parhaus
	Mynd ati'n rhagweithiol i ganfod cyfleoedd gyda chyfryngau masnach i gyrraedd cynulleidfaoedd rhanddeiliaid yn well	Rhoi Gweithdrefnau Gweithredu Safonol tîm ar waith ar gyfer bidio a thrin y cyfryngau Cynnal hyfforddiant tîm mewn gwaith cyfryngau Diweddarau rhestrau cyswllt y cyfryngau fel ein bod yn gwybod i bwy i gyflwyno ein gwasanaeth Cysylltu â newyddiadurwyr perthnasol i feithrin perthnasoedd a nodi eu hanghenion wrth gyflwyno ein gwasanaeth Dod â straeon newyddion rhagweithiol i gyfarfodydd y tîm cyfathrebu i drafod syniadau ar sut i gyflwyno ein gwaith ac i bwy	Parhaus Parhaus Tachwedd Tachwedd Parhaus

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Gweithio gydag arweinwyr y Gymraeg i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol gyda'n rhanddeiliaid a sicrhau bod ein cyfathrebiadau ar gael yn ddwyieithog	Ymgysylltu ag arweinwyr y Gymraeg a rhwydweithio ar draws DHCW Hyrwyddo adnoddau Cymraeg a chefnogaeth i staff yn gryf Sicrhau bod cyfathrebiadau'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog Edrych ar greu cynnwys gyda siaradwyr Cymraeg o fewn y tîm cyfathrebu	Awst Awst Parhaus Medi
Tyfu ein cyfathrebu cyhoeddus – adeiladu dealltwriaeth o rôl DHCW a sut y bydd gwasanaethau digidol a data yn helpu'r GIG yng Nghymru i weithio'n well, beth mae DHCW yn ei wneud i fynd i'r afael â chynhwysiant digidol ac annog pobl i weithio i ni	Sicrhau bod ein sianeli cyfathrebu cyhoeddus yn dilyn arfer gorau a'u bod yn ddeniadol ac yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd	Cynnal adolygiad o'n gwefan ac ystyried argymhellion Sicrhau bod gennym sgiliau arbenigol priodol o fewn y tîm i ddatblygu ein gwefan Parhau i ddatblygu a thyfu ein sianeli cyfryngau cymdeithasol Gwerthuso perfformiad ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i ddeall lefelau defnydd ac ymgysylltu	Parhaus Parhaus Parhaus Gorffennaf
	Teilwra ein cyfathrebiadau a nodi cyfleoedd i gyflwyno cyfathrebiadau rhagweithiol sy'n amlygu'r hyn y mae DHCW yn ei wneud ac yn dangos sut mae ein gwasanaethau yn helpu i wella gofal am y cyhoedd	Sicrhau bod ein cyfathrebiadau yn canolbwyntio ar bobl ac yn berthnasol i aelodau'r cyhoedd drwy ddangos yr effaith y maent yn ei chael ar ofal pobl	Mehefin ymlaen

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Hyrwyddo ein gwasanaethau a'n cynhyrchion allweddol y gall y cyhoedd eu defnyddio i wella eu gofal	Hyrwyddo ap GIG Cymru a chynhyrchion cyhoeddus eraill ar draws ein sianeli cyfathrebu yn DHCW	Medi
	Datblygu strategaeth digwyddiadau i sicrhau bod gennym bresenoldeb mewn digwyddiadau cyhoeddus perthnasol i godi ymwybyddiaeth o DHCW	Datblygu cynllunydd digwyddiadau Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tîm digwyddiadau i sicrhau ein bod yn mynychu neu'n arddangos mewn digwyddiadau perthnasol i gwrdd â'n hamcanion strategol	Mehefin Parhaus
	Ymgysylltu â'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg prif ffrwd a nodi cyfleoedd i hyrwyddo ein gwaith i gynulleidfa gyhoeddus eang	Rhoi Gweithdrefnau Gweithredu Safonol tîm ar waith ar gyfer bidio a thrin y cyfryngau Cynnal hyfforddiant tîm mewn gwaith cyfryngau Diweddarau rhestrau cyswllt y cyfryngau fel ein bod yn gwybod i bwy i gyflwyno ein gwaith Dod â straeon newyddion rhagweithiol i gyfarfod y tîm cyfathrebu i drafod syniadau ynghylch sut i gyflwyno'n gwaith ac i bwy Cysylltu â newyddiadurwyr perthnasol i feithrin perthnasoedd a nodi eu hanghenion ar gyfer cyflwyno ein gwasanaeth	Parhaus Parhaus Tachwedd Parhaus Tachwedd
	Gweithio gyda'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol i ddatblygu cyfathrebu a mynychu digwyddiadau perthnasol sy'n targedu gweithlu'r dyfodol ac yn annog siaradwyr Cymraeg a Saesneg i weithio i DHCW	Darparu cymorth y gyfarwyddiaeth cyfathrebu i feithrin perthnasoedd a rhannu cynllunio rhwng cyfathrebu a Phobl a Datblygu Sefydliadol Sganio'r gorwel i ganfod digwyddiadau recriwtio perthnasol fel rhan o'n strategaeth digwyddiadau a sicrhau ein bod yn mynychu digwyddiadau a fydd yn effeithio ar recriwtio	Parhaus Ionawr

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Gweithio ar y cyd â thimau cyfathrebu GIG Cymru a phartneriaid allweddol i gyflwyno cyfathrebiadau ar y cyd sy'n hyrwyddo ein gwaith a'r effaith y mae'n ei chael ar eu cynulleidfaoedd	Ymuno â galwadau wythnosol Penaethiaid Cyfathrebu Llywodraeth Cymru a nodi meysydd lle gallwn gydweithio	Parhaus
		Ymuno â grŵp cymheiriaid Penaethiaid Cyfathrebu Conffederasiwn GIG Cymru a nodi meysydd lle gallwn gydweithio	Parhaus
		Sicrhau bod cyfathrebiadau'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â thimau Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau a'u rhannu ar draws sianeli	Gorffennaf ymlaen
		Ymuno â grwpiau cyfathrebu y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a grwpiau cymheiriaid perthnasol	Parhaus
Gwellu ein cyfathrebu digidol – darparu cyfathrebiadau digidol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu ein huchelgeisiau fel sefydliad digidol blaenllaw	Gwellu sgiliau tîm mewn cyfathrebu digidol	Datblygu a gweithredu rhaglen DPP tîm, fydd yn cwmpasu cyfathrebu digidol	Ionawr
	Sganio'r gorwel i ganfod tueddiadau newydd a sicrhau ein bod yn darparu arfer gorau	Gwneud ymchwil bob chwarter ar gyfathrebu digidol a chanfod unrhyw dueddiadau neu newidiadau allweddol Canfod arweinwyr yn y maes a monitro eu gwaith yn rheolaidd i ddeall beth yw arfer gorau a chymhwyso hyn i'n sianeli	Ionawr Ionawr
	Creu mwy o gynnwys digidol yn fewnol	Prynu offer ffilmio Gwellu sgiliau tîm (yn unol â'r cam gweithredu uchod)	Gorffennaf Awst

ATODIADAU

Nod strategol	Sut byddwn yn ei wneud	Camau cyflawni	Dyddiad
	Nodi lle gallwn ddefnyddio cyfathrebu digidol i sicrhau'r canlyniadau gorau a bod mor gynhwysol â phosibl	Sicrhau bod gan y tîm cyfathrebu wybodaeth am gydraddoldeb a hygyrchedd a bod ein sianeli digidol yn bodloni'r safonau hyn Cynnal archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o'n cyfathrebiadau mewnol a'u monitro yn erbyn sefydliadau eraill Sganio'r gorwel i ganfod arfer gorau ac ystyried sut gallai DHCW fabwysiadu dulliau newydd	Gorffennaf Medi Mawrth
	Mabwysiadu dull gweithio sy'n canolbwyntio mwy ar bobl	Sicrhau bod cynnwys ein cyfathrebu digidol, yn enwedig ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, yn canolbwyntio ar bobl	Parhaus
	Gwerthuso ein hoffer cyfathrebu digidol yn rheolaidd gan ddefnyddio metreg perfformiad allweddol	Trefnu gwerthusiad misol o'n sianeli digidol a'i drafod mewn cyfarfodydd tîm Y bwrdd perfformiad cyfathrebu digidol i adrodd i'r bwrdd rheoli misol	Awst Gorffennaf ymlaen
	Sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull dwyieithog o gyfathrebu'n ddigidol, gan gynnig cynnwys yn y ddwy iaith a hyrwyddo DHCW fel sefydliad dwyieithog	Sicrhau bod pob cyfathrebiad digidol yn ddwyieithog Ymchwilio i arfer gorau ym maes cyfathrebu digidol dwyieithog Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy ein sianeli digidol Gweithio gydag aelodau tîm Cymraeg eu hiaith i ddrafftio cynnwys yn ddwyieithog	Parhaus Chwefror Parhaus Medi